

Adar Hela Cymry'r Oesoedd Canol

Howard Williams

Hywel Dda

Yr oedd heboca yn boblogaidd iawn ymhlith haenau uwch y gymdeithas trwy Ewrop gyfan yn yr Oesoedd Canol. Mae gwreiddiau'r gamp yng ngwledydd yr Arabiaid ond mae'n debygol iddi ddod i Gymru o Loegr cyn goresgyniad y Normaniaid. O bosib, gallai Hywel Dda (m. 949/50) fod wedi ei chyflwyno i'w lys ei hun ar ôl gweld y gweithgaredd yn llys Athelstan, brenin Lloegr, a hyd yn oed wedi dod â hebogydd o'r llys hwnnw i hyfforddi'r Cymry. Ac o dan y gyfraith frodorol a briodolir i Hywel rhoddid lle anrhydeddus iawn i brif hebogydd y brenin ymhlith ei swyddogion, llawer uwch na safle'r 'pencynydd', sef y dyn â chyfrifoldeb am y cŵn hela.

Cymru'n gynefin cyfoethog i adar hela

Mae tystiolaeth hanesyddol ar gael y defnyddiai brenhinoedd Lloegr wylltiroedd Cymru fel ffynhonnell dda ar gyfer adar hela yn yr Oesoedd Canol. Gorfodwyd arweinwyr Gogledd Cymru gan Athelstan i gyflenwi adar hela iddo'n flynyddol. Ac yn ei adroddiad am ei daith trwy Gymru yn 1189 dywed Gerallt Gymro am sut y lladdwyd hebog mawr Harri'r Ail ar arfordir Sir Benfro gan hebog gwyllt llai o faint, O ganlyniad, yn ôl Gerallt, trefnodd y brenin gael adar ifainc o'r fath bob blwyddyn o greigiau Cymru ar gyfer heboca. Mae'r disgrifiad yn ddigon manwl i farnu'n hyderus mai hebog y gogledd (*Falco rusticolus* – *gyrfalcon*) oedd aderyn y brenin a hebog tramor (*Falco peregrinus* – *peregrine*) ei orchfygwr. Yn olaf, yn 1484 cyhoeddwyd gwarant gan frenin Lloegr i gymryd am bris rhesymol 'such goshawks, tarcells, fawcons, laneretts and other hawks as can be gotten within the principality of Wales...as shall be necessary for the king's disport.'



Hebog tramor

Poblogrwydd

Mae 'na gyfeiriadau yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol sy'n awgrymu bod pobl yn bur gyfarwydd ag arferion heboca. Er enghraifft, roedd adar hela yn cael eu cadw mewn cawell (neu ryw fath o fangre gaeedig) pan fwrient eu plu yn flynyddol. Gelwid yr aderyn wedyn yn aderyn 'mud' (*mewed*). Ystyrir y byddai'r aderyn ifanc yn gorfforol aeddfed ar ôl bwrw ei blu unwaith ond y byddai'n gwella wedyn. Yn *Culhwch ac Olwen* (y chwedl Gymraeg ganoesol gynharaf i oroesi) darlunnir harddwch Olwen fel hyn: *Na golwg hebog mud, na golwg gwalch trimud, nid oedd olwg tecach nag [ei golwg hi]*. Y pwynt diddorol yw'r tebygrwydd y byddai'r gynulleidfa ganoloesol wedi deall y gymhariaeth arbenigol hon heb eglurhad.

Cerddi gofyn am adar hela

Cyffwrdd â heboca wrth fynd heibio fu'r awdur hwn ond ymdriniwyd heboca yn llawer fanylach yn rhai o'r cerddi mawl a luniwyd yn hanner olaf y bymthegfed ganrif a hanner cyntaf y ganrif ganlynol. 'Cywyddau gofyn' yw'r cerddi hyn, sef cerddi i geisio cael anrheg benodol gan uchelwr. Yn aml, mae'r bardd yn gofyn am y rhodd drosto ef ei hun, er enghraifft ceffyl newydd i'w gludo o un llys i'r llall, ond hefyd mae'n gofyn dros ryw uchelwr arall, yn aml dros ryw berthynas i'r darpar roddwr. Cynigiai'r comisiynau o'r fath y cyfle i'r bardd gael dau ddogn o nawdd am yr un gerdd, un gan y eirchiad a'r llall gan y rhoddwr. Ymhlith y cywyddau hyn, ceir mwy na dwsin sy'n gofyn am aderyn hela ac, ymhlith y beirdd a'u lluniodd, roedd mawrion yr oes fel Guto'r Glyn a Tudur Aled.

Mae dwy elfen sefydlog a geir yn y cerddi hyn sydd o ddiddordeb neilltuol i'r naturiaethwr, sef y disgrifiad o'r aderyn a ddeisyfir a'r rhestr o'i brae. Mae'r cyntaf yn allweddol a'r ail yn berthnasol wrth geisio adnabod pa fath yn union o aderyn sydd dan sylw ym mhob cerdd.

Rhestru'r prae

A throi'n gyntaf at brae'r aderyn, ceir rhestr ddigon gwaedlyd bron ym mhob cerdd o'r adar y byddai ef yn debyg o'u dal. Yn y mwyafrif ohonynt ymddengys aderyn y bwn yn y rhestr, weithiau fel caffaeliad aml. *Ar y bwn yr â beunydd*, cân un bardd. Ar yr wyneb mae hynny'n dystiolaeth werthfawr am ba mor gyffredin yn yr Oesoedd Canol

oedd y crëyr bychan hwn, sydd yn brin iawn yng Nghymru bellach. Ond yn y cyfreithiau ceir neges glir bod lladd aderyn y bwn yn gamp arbennig:


Tri gwasanaeth y dylai'r brenin eu gwneud i'r hebogydd y dydd y caffo gylfinir, neu grychydd, neu y bwn o'i hebogyddiaeth, nid amgen: dal y warthaf [sef *stirrup*] pan disgynno, a dal ei farch tra gymero yr hebog a'r aderyn, a dal y warthaf tra esgynno; ac yn y nos honno y dylai ei anrhydeddu o tair anrheg [sef *gweini ar yr hebogydd dairgwaith yn ystod gwledd y noson honno*]

Mae awgrym y cyfreithiau bod lladd yr aderyn hwn yn ddigwyddiad prin yn gyson â'r cefndir adaryddol. Er y gellir credu bod yr aderyn hwn yn eithaf cyffredin yn yr Oesoedd Canol diweddar am nad oedd llawer o'r gwlyptir, lle roedd yn byw, wedi'u draenio erbyn hynny, mae'r aderyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn llechu o dan gyrs uchel a chuddliw effeithiol iawn amdano.



Aderyn y bwn

Dadleuol hefyd yw'r honiad yn y cywyddau y lleddid garanod (*Grus grus* – crane) a chrehyrod. Er bod hynny'n bosibl, byddai angen rhoi hyfforddiant arbennig i'r aderyn am fod yr ysglyfaeth hon yn rhy fawr a rhy beryglus i ddenu sylw greddfod na'r hebog tramor na'r gwalch Marth.



Garan

Adnabod yr aderyn

Mae'r dehongliad o'r dystiolaeth yn y cywyddau o ran adnabod yr aderyn dan sylw yn fwy ansicr byth. Defnyddir aelodau o ddau deulu'r adar ysglyfaethus ar gyfer heboca, sef yr *accipitridae* a'r *falconidae*. Nid oes ond dwy rywogaeth a berthyn i'r teulu cyntaf sy'n addas i hela, sef y gwalch glas (*accipiter nisus* - *sparrowhawk*) a'r gwalch Marth (*accipiter gentilis* – *goshawk*). Maent hwy ill dau wedi'u cymhwyso ar gyfer bywyd mewn coedwigoedd. Mae eu hadenydd yn gymharol fyr a'r gynffon yn eithaf hir gan eu galluogi i hedfan mewn lleoedd cyfyng a newid cyfeiriad yn gyflym wrth erlid eu prae a gafael ynddynt â'u crafangau. Cymharol fach yw'r gwalch glas ac felly gan ferched y'i defnyddid yn yr Oesoedd Canol. Gwalch glas (a elwid yn 'llamysten') ar gyfer merch yw gwobr enillydd y twrnamaint yn un o'r rhamantau a geir ym *Mabinogion* yr Arglwyddes Charlotte Guest, sef *Geraint*.



Gwalch glas



Gwalch Marth

O blith y *falconidae*, yn ogystal â'r hebog tramor a hebog y gogledd y soniodd Gerallt Gymro amdanynt, mae'r hebog gwlanog hefyd (*falco biarmicus* – *lanner falcon*) yn aderyn addas i'r gamp. A'u hadenydd yn hir ac yn gymharol denau, cymhwysir y *falconidae* at ladd adar uwchben tir agored trwy blymio arnynt a'u dyrnu'n rymus â'u crafangau. Byddant yn codi'r prae o'r tir wedyn.



Hebog gwlanog

Yn y cyfreithiau brodorol deg swllt oedd gwerth 'hebog' ifanc ac roedd un hyfforddedig yn werth punt. Y prisiau cyfatebol ar gyfer 'gwalch' oedd pum swllt ac yn ei dro ddeg swllt. Nhw oedd y prisiau ar yr ieir sy'n adar mwy o faint o dipyn na'r ceiliog yn y ddau deulu. Yr oedd yr 'hwyedyd', sef y ceiliog yn ôl pob tebyg, yn werth dau swllt yn unig.

Enwau'r adar

Nid yw'r enwau a roddid gan y beirdd ar yr aderyn dan sylw yn gymaint o gymorth â'r disgwyl wrth adnabod pa rywogaeth y buont yn canu amdani. Mewn dau gywydd yn unig fe ellir bod yn hollol sicr mai un o'r *falconidae* yw'r aderyn a erchir, sef yn y ddwy gerdd sydd yn rhoi'r enw Saesneg, *lanner*, arno. Ond defnyddid *lanner* yn Saesneg weithiau i gyfeirio at yr hebog tramor. Ac er nad oedd yr hebog gwlanog yn gyfuwch o ran bri a gwerth ariannol nid oedd llawer o wahaniaeth o ran gwedd y ddwy rywogaeth nac o ran y dulliau hela ynghlwm wrthynt. Felly, nid yw'r enw yn cynnig sicrwydd o ran yr union fath o aderyn dan sylw hyd yn oed yn y ddwy gerdd hyn.

Nid yw'r gair 'gwalch', a ymddengys yn fynych, o gymorth mawr chwaith. Erbyn heddiw, defnyddir 'hebog' yn amlach na 'gwalch' i gyfeirio at adar hela yn gyffredinol. Ond yn y cywyddau dan sylw mae'n fwy na thebyg bod 'gwalch' yn cyfleu'r ystyr gyffredinol hon (yn hytrach nag yn cyfeirio at *acciptridae* yn unig).

Digwydd 'gosawg' neu 'gosog' yn eithaf aml hefyd yn y cerddi hefyd. Mae'r gair yn cyfateb, wrth gwrs, i'r gair Saesneg, goshawk. Ond, unwaith eto, ni ellir rhagdybio mai at hwnnw y mae'r gair yn cyfeirio yn y cywyddau. Daw ei ran gyntaf o'r Hen Saesneg *gos*, sef gŵydd, ond nid yw'r gwalch Marth yn debyg o ymosod ar aderyn mor sylweddol ei faint â gŵydd. Am hynny, cred rhai arbenigwyr y câi ffurfiau blaenorol y gair modern eu rhoi'n wreiddiol ar yr hebog tramor, am mai hwnnw yw'r aderyn sydd fwyaf tebygol o ddal gwyddau.

Ategir yr amheuan hyn yn y cerddi Cymraeg dan sylw. Yn ôl yr awgrymiadau eraill yn rhai ohonynt hebog tramor yw eu 'gosawg'. Er enghraifft, mewn un cywydd mae gan y 'gosawg' 'adain fain' ond nid yw adenydd y gwalch Marth yn denau o gwbl. Ac mewn un arall, mae'r bardd, wrth annerch ei 'osawg', yn cyfeirio at 'sicl o'th esgyll'. Mae honno hefyd yn ddisgrifiad da o siâp adenydd yr hebog tramor. Mae cyfeiriad at 'aderyn crwn' gan fardd arall yn tueddu i awgrymu mai hebog tramor yw'r rhodd dan

sylw am fod crynoder yr aderyn, yn nodwedd amlwg arno. Yn olaf, ymddengys fod Guto'r Glyn, wrth ddarlunio ei 'osawg' yntau, yn cyfeirio at yr ymadrodd canoloesol Saesneg, 'hawk of the tower', a hwnnw'n cyfeirio at aelod o deulu'r *falconidae*.

Ar y llaw arall, gall y disgrifiad manwl o'r 'gosawg' gadarnhau mai gwalch Marth go iawn ydyw. Er enghraifft, darlunnir yr aderyn gan un bardd fel un sy'n dal ei adenydd 'Weithiau fel llyfrau ar lled'. Mae hynny'n dangos y modd y bydd y gwalch Marth yn llithro trwy'r awyr bob hyn a hyn heb guro ei adenydd. Yn yr un cywydd cyfeirir at y dull o ymosod sydd gan yr aderyn, trwy 'try gylfinir'. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gwalch Marth a fydd yn gafael yn ei brae oddi isod gerfydd ei grafangau, ar ôl iddo ei oddiweddyd, a throir prae drosodd wedyn.



Adenydd Gwalch Marth

Adenydd Gwalch Marth

Os chwiliwn am awgrymiadau am y math o aderyn a erchir, ar wahân i'r enwau, gellir edrych ar ffactorau eraill. Er enghraifft, efallai fod lleoliad y rhoddwr yn arwyddocaol. Mewn pedwar cywydd mae'r rhoddwr yn Fonwysyn. Mae'n debyg nad oedd ond ychydig iawn o goetir ar yr ynys erbyn y bymthegfed ganrif ac, oherwydd ei moelni, nid yw tirwedd o'r fath yn debyg o fod yn gynefin addas i weilch Marth. Ac yn un o'r cywyddau hyn Abad Talylychau yn Sir Gaerfyrddin yw'r un sy'n gofyn am yr aderyn. Os oedd eisiau gwalch Marth ar yr Abad, a oedd angen chwilio mor bell i ffwrdd â Môn?

Mae'r ystyriaethau uchod yn arwain at y casgliad mai hebogiaid tramor yw'r rhan fwyaf o'r adar hela a ddeisyfir a hynny'n groes i'r argraff gychwynol a roddir gan y defnydd helaeth o'r enw 'gosawg' yn y cywyddau. Ond petrus yw'r casgliad hwn. Ni ellir rhagdybio bod y beirdd yn ddigon cyfarwydd â heboca, nac yn ystyried y dasg o fanylu am yr aderyn dan sylw yn ddigon pwysig, i ddarlunio'r aderyn a erchir yn y

cywydd yn hollol gywir bob tro. Nid yw'n anodd credu mai aderyn cyfansawdd a ddisgrifir ambell waith. Wedi'r cwbl, arferid y gamp yn ystod y misoedd pan oedd y tywydd ar ei waethaf a chysuron y plasty ar eu mwyaf atyniadol. Efallai hefyd nad yw ambell fardd yn rhy gyfarwydd â'r hebog tramor, yn hytrach na'r gwalch Marth, am mai'r gwalch Marth a ddefnyddid, mwy na thebyg, gan ei gymheiriaid (oherwydd nad oedd yr adnoddau ganddynt i hela ag hebogiaid tramor.

Nid yw'r diffygion hyn o ran cysondeb enwi yn syndod mawr. Hyd yn oed yn y cyfnod modern mae amryw enwau ar gyfer yr un aderyn ar draws Cymru. Er enghraifft, defnyddir yr enw 'gwalch glas' am yr hebog tramor. Mae 'na berygl hefyd o roi gormod o bwysau ar y dystiolaeth hon. Nid llawlyfrau ar hebogyddiaeth yw'r cywyddau dan sylw. Byddai'r gynulleidfa ganoloesol wedi adnabod y gor-ddweud nodweddiadol, megis am brae'r adar, ac yn ddiau wedi ei fwynhau. Ond gobeithio y bydd yr erthygl fach hon wedi dangos bod llawer sydd o ddiddordeb yma i'r naturiaethwr er gwaethaf yr anhawsterau wrth geisio ei ddehongli.